# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.45)

### 2.1 Llythyr gan Brif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

(Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-6-21 - Papur i'w nodi

## 3 Gweithio o Bell: Y goblygiadau i Gymru - Gwaith craffu gyda'r Gweinidog

(09.45-10.45) (Tudalennau 4 - 32)

Hannah Blythyn AS, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru
Lea Beckerleg, Pennaeth Polisi a Gweithrediadau Gweithio o Bell, Llywodraeth Cymru
Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
EIS(5)-6-21- Papur Briffio
EIS(5)-6-21- Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**Egwyl (10.45-10.50)**

## 4 Diweddariad ar Fand Eang - Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(10.50-11.20)
Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Richard Sewell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru
Adam Butcher, Uwch Reolwr Ymgysylltu a Pholisi, Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.20)

**Egwyl (11.20-11.25)**

## 6 Sesiwn breifat: Ymchwil Cymrodoriaeth Academaidd ar Fynediad at Wasanaethau Ariannol - briffio technegol

(11.25-11.55) (Tudalennau 33 - 48)

Mitchel Langford, Athro Cyswllt, Cyfadran Cyfrifiadura, Peirianneg a Gwyddoniaeth, Prifysgol De Cymru
Yr Athro Gary Higgs, Cyfadran Cyfrifiadura, Peirianneg a Gwyddoniaeth, Prifysgol De Cymru

**Dogfennau atodol:**
EIS(5)-6-21- Tystiolaeth gan Mitchel Langford (Saesneg yn unig)

## 7 Preifat

(11.55-12.10)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddESS@senedd.cymru

8 Chwefror 2021

Annwyl Russell

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddyfodol y Rheilffyrdd**

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar ddyfodol rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau.

Bydd Aelodau yn cofio i mi ysgrifennu ar 22 Hydref 2020 yn benodol am y model y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ei gyflwyno a fydd yn caniatáu i ni addasu ein cynlluniau ar gyfer cyfnod ar ôl Covid.

Rwy'n falch o roi gwybod, yn dilyn proses drylwyr, a oedd yn cynnwys trafodaethau manwl iawn gyda KeolisAmey, y bydd TrC o 7 Chwefror ymlaen, yn gweithredu gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau drwy is-gwmni Rheilffyrdd TrC.

Fel partneriaeth, rydym bob amser wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rheilffyrdd i Gymru a'r Gororau, gan fod yn onest gyda ni ein hunain ynghylch yr heriau a ddaw yn sgil y pandemig. Mae'r ymrwymiad a'r gonestrwydd hwn wedi ein galluogi i ail-alinio ein partneriaeth yn esmwyth, mewn modd a ddylai fod yn llyfn.

O 7 Chwefror ymlaen, bydd Trafnidiaeth Cymru, Keolis ac Amey yn cynnwys tair cydran allweddol:

- Cyfrifoldeb is-gwmni newydd sy'n eiddo cyhoeddus i Drafnidiaeth Cymru fydd darparu gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd. Gan fod ansicrwydd mawr ynghylch refeniw teithwyr, mae hyn yn rhoi'r sylfaen ariannol fwyaf sefydlog i ni allu rheoli'r gwasanaethau rheilffyrdd wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales


- Bydd y gwaith o reoli seilwaith a thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, yn parhau i gael ei gyflawni dan y contract presennol. Bydd hyn yn cynnig sefydlogrwydd i'r rhaglen er mwyn sicrhau bod y gwaith o drawsnewid Metro de Cymru, sydd eisoes yn mynd rhagddo, yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

- Datblygwyd partneriaeth newydd gyda Keolis ac Amey, dan arweiniad Trafnidiaeth Cymru, sy'n galluogi pobl Cymru i barhau i elwa ar brofiad ac arbenigedd rhyngwladol y partneriaid hyn i helpu TrC i gyflawni ymrwymiadau pwysig fel tocynnau integredig, systemau trafnidiaeth ar-alw, dyluniad a darpariaeth ar draws dulliau teithio, yn ogystal â'r gwaith parhaus o integreiddio rheilffyrdd ysgafn a thrwm.

Rydym yn ymwybodol iawn ein bod yn dal mewn cyfnod anodd ac na allwn fforddio gorffwys ar ein rhwyfau wrth i ni ganfod ein ffordd allan o'r pandemig. Mae'r bartneriaeth newydd yn ymwybodol iawn o'r realiti sy'n ein hwynebu, a'r penderfyniadau anodd sydd o'n blaenau wrth i ni ddod i delerau â'r realaeth economaidd newydd a achoswyd gan y feirws. Fodd bynnag, mae ein huchelgais i ddal ati i ddarparu system drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uchel yn parhau, ac os rhywbeth, mae wedi cynyddu ein hymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau y cyflawnir ein blaenoriaethau ehangach ar gyfer y newid yn yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol. Beth bynnag a ddaw yn y dyfodol, mae trafnidiaeth gyhoeddus integredig o ansawdd da yn hollbwysig.

Rwy'n siŵr y byddwch yn rhannu ein hawydd i weld y model newydd hwn yn ffynnu a'n bod yn parhau i gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Rwy'n barod iawn i gwrdd â chi i drafod ymhellach os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

Yn gywir,



James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – GWEITHIO O BELL**

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig am Weithio o Bell i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

**Y Cefndir**

2. Erbyn hyn, amharwyd ar batrymau gwaith, patrymau teithio a phatrymau cymdeithasol ers blwyddyn bron, ac mae pobl wedi mynd ati i newid y ffordd y maent yn byw eu bywydau. Mae'n ymddangos bod rhai o'r newidiadau hyn yn dechrau bwrw gwreiddiau, a'r mwyaf amlwg ohonynt yw bod mwy o bobl yn gweithio gartref neu'n agos i’r cartref – Gweithio o Bell.

3. Ers blynyddoedd lawer, mae pobl wedi bod yn cymudo bob dydd mewn cerbydau preifat, gan greu tagfeydd a llygredd ac weithiau, gan deithio cryn bellter. Mae'r adferiad ar ôl Covid-19 yn gyfle i fabwysiadu’n barhaol rai o'r datblygiadau cadarnhaol yr ydym wedi'u gweld ledled Cymru o ran sut mae rhan helaeth o'r gweithlu’n gweithredu. Rydym yn dechrau gweld sut siâp a allai fod ar y dyfodol o ran tueddiadau gwaith a theithio.

4. Mae’n nod polisi o greu hinsawdd lle bydd mwy o bobl yn gweithio o bell yn gyfle i sicrhau bod y newid mewn ymddygiad yr ydym wedi’i weld yn ein cymunedau yn troi’n llwyfan ar gyfer ailadeiladu’n heconomi a gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Rydym o’r farn, felly, fod achos o blaid gweld y llywodraeth yn chwarae rôl weithredol o ran sicrhau bod mwy o aelodau’r gweithlu yn gweithio o bell.

5. Mae'r polisi hwn yn effeithio ar adrannau'r llywodraeth ac ar y dirwedd ehangach yng Nghymru. Dyna’r brif ystyriaeth sydd wedi bod ar ein meddwl wrth inni fynd ati i ddatblygu'r polisi. Bydd penderfyniadau pobl ynglŷn â gweithio gartref neu'n agos i’w cartrefi yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ac mae angen inni alluogi newidiadau a fydd yn gweithio i weithwyr ac i gyflogwyr.

6. Gan weithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector preifat, rydym wedi nodi amrywiaeth o gamau a fydd yn caniatáu i fwy o aelodau’r gweithlu weithio o bell yn rheolaidd, ac rydym yn barod i weithredu'r polisi traws-lywodraethol hwn. Ceir disgrifiad byr o'r gwaith isod.

**<u>Creu sylfaen dystiolaeth a monitro</u>**

7. Er mwyn sicrhau bod effeithiau hirdymor y polisi hwn yn rhai cadarnhaol, mae angen inni ddeall y dirwedd yn ei chyfanrwydd, a hefyd yr hyn y gallai newidiadau sylfaenol i batrymau gwaith ei olygu. I'r perwyl hwnnw, rydym wrthi’n cynnal ymchwil ac yn casglu tystiolaeth, gan gynnwys:

   a. Asesiad Effaith Integredig, gan ystyried manteision a risgiau'r polisi

(mae'n cynnwys ystyried Cydraddoldeb, y Gymraeg, yr effaith ar gefn gwlad, yr effaith amgylcheddol)

b. Paratowyd adroddiad ymchwil ar Effeithiau Economaidd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac mae i'w gweld ar eu gwefan.

c. Astudiaeth i amcangyfrif y manteision o ran allyriadau carbon yn sgil llai o gymudo.

d. Gofynnwyd i randdeiliaid fynegi barn, ac aed ati i ddadansoddi'r safbwyntiau hynny, er mwyn ein helpu i benderfynu ar y camau nesaf. Cafwyd safbwyntiau amryfal grwpiau cynrychioliadol, y TUC a Chomisiynwyr, yn ogystal â chyrff yn y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

e. Ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd i fesur y galw am weithio'n lleol ac i nodi lleoliadau posibl, a'r mathau o gyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen. I ategu'r gwaith hwnnw, rydym yn mapio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer rhannu gweithle ar ystad y sector cyhoeddus.

f. Datblygu ffyrdd o fesur lefelau gweithio o bell a thueddiadau dros amser drwy gynnwys cwestiynau am y mater hwn mewn arolygon cenedlaethol.

g. Datblygu canolfannau gweithio lleol i brofi'r cysyniad ac er mwyn deall y galw a modelau darparu.

**<u>Y Strategaeth Drafnidiaeth</u>**

8. Dros amser, bydd mwy o weithio o bell yn arwain at lai o lawer o deithio mewn ceir preifat. Bydd manteision mesuradwy i'w gweld hefyd wrth i'r pwysau ar ein system trafnidiaeth gyhoeddus gael ei liniaru. Mae penderfyniadau am gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus, ac i ryw raddau, ei chost, yn seiliedig ar y galw yn ystod yr adegau cymudo prysuraf. Bydd lliniaru'r pwysau ar yr adegau hynny o fudd i drafnidiaeth gyhoeddus ac i drafnidiaeth ar y ffyrdd, drwy leihau tagfeydd a rhyddhau lle ar y ffordd at ddibenion eraill. Gellid gwella ansawdd aer a chymryd camau pendant tuag at ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, gallai llai o ddefnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus arwain at fwy o ofynion o ran cymhorthdal.

9. Lleihau'r angen i deithio yw lefel gyntaf yr hierarchaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad; gall gweithio o bell a llai o gymudo wneud cyfraniad allweddol yn hynny o beth.

**<u>Trawsnewid Trefi</u>**

10. Mae'n hagenda Trawsnewid Trefi yn tystio i'n hymrwymiad i ddyfodol canol ein trefi a'n dinasoedd. Mae pandemig y coronafeirws wedi cyflymu tueddiadau yr oeddem eisoes yn ymwybodol iawn ohonynt: y twf mewn gwerthiant ar-lein a phwysau ar y sector manwerthu. Mae gan fanwerthu rôl

hollbwysig i'w chwarae o hyd, ond roeddem wastad yn gwybod bod yn rhaid i ddyfodol y stryd fawr a chanol trefi ddibynnu ar fwy na manwerthu yn unig. Dyna pam yr ydym, wrth inni ddarparu cymorth i Drawsnewid Trefi, yn hoelio sylw ar sicrhau bod amrywiaeth ehangach o weithgareddau a mathau o ddefnydd yn cael eu cynnig, gan gynnwys gofod hyblyg ar gyfer busnes, hamdden, gwasanaethau lleol a gweithgareddau diwylliannol.

11. Bydd y cynnydd yn y cyllid cyfalaf ar gyfer canol trefi yn ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn golygu y bydd y buddsoddiad yn y cynllun Trawsnewid Trefi, a gyhoeddwyd fis Ionawr diwethaf (2020), yn gyfanswm o bron £110 miliwn. Mae hyn yn adeiladu ar £800 miliwn o fuddsoddiad adfywio ers 2014 i gefnogi dros 50 o drefi ledled Cymru i ailadeiladu ac adnewyddu adeiladau a mannau cyhoeddus, yn ogystal â mynd i'r afael ag eiddo gwag. Mae llawer o'r prosiectau a gefnogwn yn cael eu targedu at ddarparu gweithleoedd a rennir, ac rydym yn cysylltu'r gwaith hwnnw'n agos iawn â'r polisi gweithio o bell.

12. Mae'r Egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf, sydd wedi cael ei chyd-lofnodi gan ein partneriaid ym maes llywodraeth leol, yn elfen allweddol o'r cynllun Trawsnewid Trefi, ac mae'n golygu mai safleoedd canol trefi/dinasoedd a ddylai gael eu hystyried yn gyntaf wrth wneud pob penderfyniad ar leoliad gweithleoedd a gwasanaethau. Mae effaith pandemig COVID-19 yn golygu bod yn rhaid inni gymhwyso'r Egwyddor hon mewn ffordd hyd yn oed yn fwy cadarn.

13. Dros yr hanner canrif diwethaf, mae'r ffocws ar gymdeithas sy'n ddibynnol ar y car, ac ar lawer o ddatblygiadau y tu allan i drefi, wedi arwain at fwy o anghydraddoldeb ac wedi bod yn niweidiol i bobl ac i'r blaned. O ganlyniad, mae canol trefi/dinasoedd yn wacach, a bwriad Canol Trefi yn Gyntaf yw troi'r fantol a helpu i leihau anghydraddoldeb o ran mynediad. Mae creu hybiau gweithio lleol yng nghanol trefi yn gwbl gydnaws â'r ffordd y mae Canol Trefi yn Gyntaf yn gweithio. Bydd yn cefnogi gwaith adfywio a gweithgarwch economaidd, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, yn ehangu'r ystod o wasanaethau a fydd ar gael, ac yn esgor ar fanteision o ran llesiant ac ar fanteision cymdeithasol ac amgylcheddol.

**<u>Gweithio'n Lleol (Hybiau)</u>**

14. Mae gweithio o bell yn gyfle i gynnal economi fwy lleol, ac mae cryn frwdfrydedd am y syniad o hybiau lleol. Wedi dweud hynny, dylid ystyried hybiau yng nghyd-destun rhaglen waith ehangach a fydd yn cynnwys cynnig cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth, meithrin sgiliau a chreu amgylcheddau gwahanol.

15. Mae'r nod sydd gennym o gynyddu nifer y bobl sy'n gweithio o bell hefyd yn cynnwys ystyried datblygu cyfleusterau lle gall pobl weithio'n agos i'w cartrefi,

gan olygu y byddant yn gallu cerdded neu feicio yno yn hytrach na chymudo cryn bellter mewn car.

16. O ran modelau busnes a modelau ariannu posibl, bydd angen inni ystyried i ba raddau y gellir darparu cyfleusterau o'r fath, neu i ba raddau y mae cyfleusterau yn cael eu darparu eisoes gan y sector preifat/y trydydd sector, ac i ba raddau y gallai fod angen cymorth ariannol ar gyfer modelau darparu o'r fath. Wrth ddatblygu'r rhan hon o'r polisi, un ystyriaeth bwysig yw a fydd sefydliadau cyflogwyr yn talu pan fydd gweithwyr yn defnyddio cyfleusterau o'r fath, sut y byddant yn talu amdanynt, a sut y gellid eu cynorthwyo i wneud hynny. Bydd y manylion hyn yn effeithio ar ba mor ddeniadol fydd cyfleusterau gweithio lleol ac ar y defnydd a wneir ohonynt. Bydd hefyd yn effeithio ar faint o ddarpariaeth a wneir gan y sector preifat.

17. Rydym yn treialu nifer bach o'r hybiau gweithio o bell hyn i weld faint fydd yn manteisio arnynt, pa mor effeithiol ydynt, ac i werthuso modelau darparu gwahanol. Bydd y prosiectau peilot hyn yn caniatáu inni fynd ati, heb fawr o gost, i gasglu tystiolaeth feintiol ac ansoddol am yr effaith y gall hybiau gweithio lleol ei chael o ran galluogi a sefydlu mwy o weithio o bell yng Nghymru. Bydd canlyniadau'r cynlluniau peilot hyn yn sail i unrhyw broses o gyflwyno rhagor o gyfleusterau o'r fath yng Nghymru.

18. Mae prosiectau’n cael eu cynnal ledled Cymru, gan gynnwys nifer yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Mae yna amrywiaeth o fodelau sy’n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac maent yn fodd inni weld pa mor ymarferol yw’r ffordd hon o weithio.

19. Er enghraifft, mae’n rhaglen Trawsnewid Trefi yn ailddatblygu adeilad lled-adfeiliedig 'Costigans' yn y Rhyl i ddarparu man pwrpasol ar gyfer deori busnesau a gweithio o bell, gan ganolbwyntio ar dechnoleg ddigidol. Bydd y man hwn yn cynnig amgylchedd gwaith creadigol, hyblyg fydd â band eang cyflym iawn, i gefnogi ac annog cenhedlaeth newydd o fusnesau bach (o'r diwydiannau creadigol a digidol yn bennaf) i sefydlu a / neu i ddefnyddio canol y dref yn ganolfan. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn lesio'r adeilad i Sgwâr y Dref, sy'n arbenigo mewn darparu lleoliadau hyblyg lle gall pobl rhannu gweithle. Mae’n arbenigwr hefyd ar roi cymorth i entrepreneuriaid.

20. Yn ogystal, mae pum Hyb Menter rhanbarthol, sydd wedi cael eu hintegreiddio'n llawn â chymorth Busnes Cymru, ar gael ar draws Cymru. Mae'r Hybiau'n golygu bod y cymorth sydd ar gael yn fwy gweladwy yn y rhanbarthau, ac maent yn hwyluso ffordd fwy cydgysylltiedig o ddarparu cymorth entrepreneuriaeth a chymorth busnes ar y cyd â cholegau, prifysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y Dinas-ranbarthau/y Fargen Twf.

21. Dyma rai o’r ffyrdd o fesur llwyddiant wrth adolygu a gwerthuso'r prosiectau peilot:

    a. Prawf o faint y galw/ y niferoedd sy'n manteisio ar y cyfleusterau
    b. Boddhad defnyddwyr a dichonoldeb busnesau
    c. Cyflogwyr yn dewis mabwysiadu opsiynau gweithio lleol ar gyfer y dyfodol
    d. Casglu gwybodaeth ansoddol a meintiol drwy gydol y cynllun peilot (cynhyrchiant, gweithgarwch, llesiant, sut mae defnyddwyr yn teithio yn ôl ac ymlaen i’r hyb, y niferoedd sy’n ei ddefnyddio, a pha mor aml, ble mae’r cyflogeion yn gweithio/byw, a ydynt wedi rhoi'r gorau i deithio mewn ceir preifat etc.)

22. Mae angen mynd ati’n barhaus i fonitro’r effeithiau ar ganol trefi a dinasoedd er mwyn rheoli unrhyw effeithiau andwyol.

23. Ein nod yw pwyso a mesur a fydd y ffordd hon o weithio yn annog mwy o gydweithredu a deialog, yn arwain at greu perthynas a chysylltiadau newydd ac at well rwydweithio ar draws sectorau. Mae angen inni hefyd ddeall a oes canlyniadau llai cadarnhaol − ar gyfer canol trefi fel y nodwyd uchod, ond hefyd ar gyfer busnesau, sefydliadau ac unigolion.

**<u>Ystad y Sector Cyhoeddus</u>**

24. Mae pob rhanbarth yn cynnal adolygiadau o'i ystad bresennol i weld sut mae’r adeiladau’n cael eu defnyddio a ble mae angen asedau, a yw’r adeiladau’n addas i'r diben ai peidio ac a oes lle i gydweithio ac ad-drefnu. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru i edrych ar yr effaith ar ein prosiect PSBA (Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus) a’i effaith ar rôl y prosiect hwnnw, sy'n cysylltu lleoliadau'r sector cyhoeddus ac yn golygu bod modd darparu gwasanaethau cyhoeddus digidol ledled y wlad.

25. Mae rhai rhanbarthau wedi nodi safleoedd allweddol lle bydd modd cydweithredu a rhannu llety er mwyn helpu i ad-drefnu’r ystadau presennol, gan gynnwys Tŷ Penallta yng Nghaerffili a Chanolfan Ddinesig Abertawe. Credwn fod awydd i gyd-leoli ar draws y sector cyhoeddus.

**<u>Dangos Arweinyddiaeth</u>**

26. Er bod y polisi'n ymwneud â dyfodol gwaith swyddfa yng Nghymru, mae arweinyddiaeth Gweinidogion a Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn gosod esiampl. Mae angen arweinyddiaeth er mwyn dangos sut mae newid arferion gwaith a llai o ddibyniaeth ar geir preifat yn cynnig manteision amgylcheddol, manteision o ran iechyd, a manteision cymdeithasol ac ariannol.

27. Mae rhannau gwahanol o'r llywodraeth wedi cael profiad eisoes o fabwysiadu datblygiadau arloesol er mwyn gwella diogelwch yn y gweithle yn ystod y pandemig, gan ganiatáu i Weinidogion ac uwch-swyddogion ar draws cyrff y sector cyhoeddus arwain drwy esiampl. Mae Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen dros gyfnod o flwyddyn yn unswydd er mwyn helpu staff Llywodraeth Cymru i addasu i weithio ar draws sawl lleoliad, drwy gynnig cyfleoedd i ryngweithio, drwy fodelu rôl gan uwch-arweinwyr a thrwy roi cymorth gyda llesiant, y cyfan yn seiliedig ar adborth a roddwyd gan y staff.

**Cefnogi busnesau a gweithwyr**

28. Os ydym am i’r newid hwn lwyddo, mae angen cynnig cymorth i ddiwydiant, i fudiadau gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ac i'r unigolion sy'n gweithio ynddynt.

29. Ein nod yw mynd ati mewn ffordd ystyrlon i helpu gweithwyr a sefydliadau i oresgyn neu fynd i’r afael â rhwystrau a phroblemau, i hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol o ran lleihau llygredd a thagfeydd, ac i helpu datblygiadau arloesol newydd ac arferion gorau i ledaenu cyn gynted ag y bo modd.

30. Mae digonedd o gymorth busnes ar gael eisoes drwy Busnes Cymru. Rydym bellach yn ategu’r cymorth hwnnw drwy roi arweiniad a chymorth ar weithio o bell. Maes o law, bydd y gwaith hwnnw’n cael ei ehangu i gynnwys arweiniad i unigolion, gan ganiatáu i lawer o bobl sydd mewn galwedigaethau lle maent yn eistedd wrth ddesg barhau i weithio o bell. Byddwn yn parhau i weithio gyda’n partneriaid cymdeithasol i symud ymlaen â hyn.

31. Rydym wrthi hefyd yn mesur hyd a lled y cymorth y bydd ei angen yn y tymor hwy. Gallai fod yn gymorth ariannol neu’n fath arall o gymorth (cymhellion sy'n annog pobl i wario’n lleol, teithio llesol, cymorth technegol neu gyngor ac arweiniad arbenigol a ddarperir yn rhad ac am ddim).

Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon